

# Beth yw gwneud ymchwil ar y cyd?



Cyflwyniad hawdd ei ddarllen i ymchwil  
cyfranogol yn y gymuned.

Mae'n dod o 'Community-based participatory  
research: A guide to ethical principles and  
practice'



# Beth yw gwneud ymchwil ar y cyd?



Mae ymchwil ar y cyd yn dechrau pan fydd grwpiau o bobl eisiau darganfod mwy am rywbeth sy'n bwysig iddyn nhw.



Mae'n ffordd o rannu'r grym a'r arian gyda grwpiau o bobl yn y gymuned. Gallai'r rhain fod yn grwpiau fel:

- pobl sy'n byw mewn un ardal fel ystad neu bentref
- grwpiau sydd â rhywbeth yn gyffredin, fel grwpiau merched, grwpiau o bobl ag anableddau dysgu, grwpiau ieuenctid neu grwpiau hoyw neu ddu
- tîm chwaraeon fel pêl-droed neu bêl-rwyd
- neu bobl sydd â'r un salwch fel canser y fron neu HIV.





Mae'r ymchwil hwn yn wahanol i ymchwil arferol gan ei fod yn cael ei wneud ar y cyd gan bobl yn y gymuned a phobl sy'n ymchwilio fel gwaith.

Gallai pobl gymryd rhan drwy:



- helpu i gynllunio'r ymchwil

- cael gwybodaeth



- dod â'r wybodaeth at ei gilydd



- edrych beth mae'r wybodaeth yn ei olygu

- penderfynu beth i'w wneud ynglŷn â'r hyn sydd wedi cael ei ddarganfod.



## Pethau i feddwl amdany'n nhw wrth wneud ymchwil ar y cyd



Mae llawer o bethau y mae angen i ni feddwl amdany'n nhw wrth wneud ymchwil ar y cyd. Pethau fel:

- gan bwy mae'r grym a'r rheolaeth?



- sut mae storïau pobl yn cael eu defnyddio?



- sut rydym yn cynnwys y pethau mae pobl eu heisiau yn y ffordd y mae'r ymchwil yn cael ei wneud?

Pan mae'r ymchwil yn ymwneud â bywydau'r bobl eu hunain mae'r pethau hyn yn bwysicach fyth.



## Mae angen i ymchwil gael ei wneud mewn ffordd sy'n iawn ac yn deg. Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae gwneud pethau mewn ffordd iawn a theg yn cael ei alw'n **foeseg**. Felly mae ffordd iawn yn **foesol** a ffordd sydd ddim yn iawn yn **anfoesol**. Pan mae pobl yn gwneud ymchwil ar y cyd, rhaid i'r ymchwil gael ei wneud mewn ffordd iawn a theg. Rhaid iddo fod yn foesol.



Mae hyn yn golygu ystyried:

- pa niwed neu les mae'r ymchwil yn ei wneud?
- hawliau pobl i wybodaeth a phreifatrwydd
- sut mae ymchwilwyr yn ymddwyn.



Rydym wedi ysgrifennu canllaw hawdd ei ddarllen o'r enw Gwneud Ymchwil ar y Cyd sy'n rhoi llawer mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â sut y dylai gael ei wneud.

Gallwch gael copi o'r canllaw ar y Rhynggrwyd:

[www.publicengagement.ac.uk/how-we-help/our-publications](http://www.publicengagement.ac.uk/how-we-help/our-publications)

[www.durham.ac.uk/beacon/socialjustice/ethics\\_consultation](http://www.durham.ac.uk/beacon/socialjustice/ethics_consultation)





## Diolchiadau

Dyluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn i Brifysgol Durham gan wasanaeth cyhoeddi EasyRead yn Inspired Services Publishing Ltd.

Cyn ISL 008/14. Mai 2014.

[www.inspiredservices.org.uk](http://www.inspiredservices.org.uk)

Mae wedi cael ei wirio i wneud yn siŵr ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio gan y grŵp 'Making it Easier' sy'n cynnwys oedolion ag anableddau dysgu.

Ariannwyd y gwaith ar gyfer y papur hwn gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau drwy'r rhaglen Cymunedau Cysylltiedig.

Mae'n rhan o brosiect ar foeseg sy'n cael ei gydlynu gan Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol a Gweithredu Cymunedol, Prifysgol Durham.

[www.durham.ac.uk/beacon/socialjustice](http://www.durham.ac.uk/beacon/socialjustice)

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

[socialjustice@durham.ac.uk](mailto:socialjustice@durham.ac.uk)

